

Mission Gallery

# Sioe Graddedigion 2016

*Yn cefnogi arbenigrwydd, gan feithrin datblygiad a gwthio ffiniau*
*Celf Gweledol a Chymhwysol, Dylunio a'r Ddelwedd Symudol*

















# Sioe Graddedigion 2016

Becky Williams
Martin Lane
Joely Clinkard
Kathrine Wibmer
Laura Marriott
Julia Hopkins
Eve Balashova
Rebecca Durbin
Sally Ann Parker
Sophie Holbeche
Sophie Jones

Cara Davies
Jake Rowles
Julia Pantowska
Katie O'Hanlon
Liyu Xue
Nathan Mullis
Mohamed Hassan
Thomas Rolfe
Tom Abbiss Smith

2 Awst - 4 Medi 2016

*Yn cefnogi arbenigrwydd, gan feithrin datblygiad a gwthio ffiniau Celf Gweledol a Chymhwysol, Dylunio a'r Ddelwedd Symudol.*

Yn dilyn llwyddiant Sioe Graddedigion llynedd, mae Oriel Mission wedi datblygu'r cyfle hwn i gynnwys celf, chrefft, dylunio, delwedd llonydd a symudol, a fydd nawr yn cwmpasu'r ddwy raglen arddangos; Gwneuthurwr mewn Ffocws a'r lle [...].


Mae Oriel Mission wedi datblygu enw da am raglen deinamig a gwahanredol, i gyflwyno arbenigrwydd ar draws y byd celf gweledol, cymhwysol a chrefft, o Gymru ac ymhellach. Dewisir gwaith o nifer o sioeau gradd ar hyd y DU a New Designers. Byddwn yn ffocysu ar artistiaid, gwneuthurwyr a dylunwyr a fydd wedi arddangos arbenigrwydd yn eu maes arbenigol; gan amlygu'r rheini sydd yn gwthio ffiniau cysyniadau a syniadau traddodiadol, gan aflunio'r llinellau rhwng disgyblaethau a dathlu holl ffurfiau celf a chrefft.



# Becky Williams

Mae'r dylunydd Becky Williams yn cymryd ysbrydoliaeth o arwynebau dinasol adfeiliog, manylion a llinellau pensaernïol i greu darnau a gemwaith addurnol. Archwilia'i gwaith syniadau gwagleoedd positif a negatif, y rhyngweithiad rhwng gwrthrychau a'u hamgylchedd a'r newid yn y dwyseddau. Gweithia gyda chopr ag enamel i greu darnau manylgar, sydd yn gwrthgyferbynnu a llinellau clir y ffurfiau haearn sydd yn eu hamgylchynu. Gan archwilio gwahanol raddfeydd, lliwiau a gorffeniadau yn ei gwaith mae'n galluogi i'r darnau weithio gyda'i gilydd ac yn annog cydosodiad ac amrywiaeth yn ei chasgliadau. Adlewyrcha'i gemwaith estheteg ei darnau, gan annog rhyngweithiad ar lefel mwy personol, wrth eu gwisgo.





# Martin Lane

Wrth greu darn o waith, mae Michael yn cymryd ysbrydoliaeth o'r helfa am y deunydd perffaith. Mae'n gweithio gyda golau a deunyddiau ailgylchadwy a chreda pan mae rhywbeth wedi cael ei ddefnyddio, mae ganddo gymeriad sydd yn arwain y dyluniad ac yn pryfocio canlyniad unigryw.

Mae ganddo ddiddordeb ym mhatrwm a chelf Op. Cymysga'r rhain gyda golau a drychau i greu prosiectau cymhleth o batrwm ailadroddol sydd yn trawsffurfio gwagleoedd.






# Joely Clinkard

Artist a gwneuthurwr sydd yn byw a gweithio yn Llundain yw Joely Clinkard, ei harsylwadau o'r ddinas yw sylfaen ei gwaith serameg, mae'n mwynhau ffordd syml Serameg gan ffafrio adeiladu a llaw, addurno a chyfrwng cymysg i adlewyrchu ei syniadau.

Mae pob darn yn unigryw, wedi eu crefftio a llaw a'u haddurno, gan gyfleu a dathlu'r bodau dynol lliwgar ac amrywiol sydd yn creu dinas. Mae'r gwaith yn dod o'r profiad o gerdded, edrych a byw yn y ddinas, gan ddeall ei fod yn le deinamig lle mae pobl, pensaernïaeth a natur yn dod at ei gilydd. Adeiladir a llaw mewn clai graeniog, traddodiadol a metal cyn rhoi dyluniad arwyneb greddfol a llachar i'r darnau sydd yn gymysgfa o ddefnydd a'r ysbrydol, y tywyll a'r lliwgar, y dynol a'r pensaernïol.





# Katherine Wibmer

Ysbrydolwyd casgliad gradd Katherine Gwyllt a Gadawedig gan Haf yn Ewrop wledig. Yr hyn a atynnodd ei sylw ar ei theithiau oedd adeiladau a dodrefn wedi eu hesgeuluso, ac fel mae gwyrddni yn gwneud ei gartref mewn strwythurau anghofus.

Fe'i sbarduna gan ei chariad tuag at brosesau tecstil traddodiadol, gan arbrofi gyda thechnegau i greu patrymau a gweadau unigryw, gan atgynhyrchu'r arwynebau toredig. Canlyniad ei defnydd o ffabrigau prosesau llaw a deunydd organig yn y proses dylunio yw casgliad unigryw i'r tŷ.





# Laura Marriott

Artist tecstil yw Laura Marriott, sydd wedi cymryd ffordd unigryw a dyfeisiol i wnïo digidol. Cyfunir lliwiau llachar a gwnïo manwl i greu strwythurau 3D unigryw.

Ysbrydolir prosiect presennol Laura "Digital Tribe" gan ddiddordeb diwylliannol, yn enwedig gyda chelf lwythol a gwrthrychau traddodiadol, sydd wedi ei ddylanwadu gan liwiau llachar, cyfoethog celf Mayan. Mae chwilfrydedd technegol wedi gyrru'r casgliad yma o les soffistigedig ac arbrofol wedi eu creu'n gyfan gwbl o ffabrigau gwnïo digidol. Mae'r darnau yma wedi'u manipiwleiddio'n unigol gyda llaw i greu casgliad unigryw o fotifau, sydd yn ffurfio'r darn sefydlog 3D yma.






# Julia Hopkins

Graddedigwr diweddar Gelf Gain o Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd yw Julia Hopkins, sydd yn creu celf sydd yn herio categoreiddio traddodiadol.

Gan ddefnyddio deunyddiau syml megis pren, llinyn a gwrthrychau darganfedig, mae hi'n creu strwythurau manwl tri dimensiwn sydd yn ymgorffori munudau penodol, digwyddiadau a syniadau. Daw syniad o chwarae'r gem blant 'Mouse trap' i'r meddwl gan wneud i'r gwyliwr ystyried cwestiynau mawr bywyd.

Mae ymarfer diweddar Julia wedi ei harwain i ddiddordeb yn y syniad o'r absẃrd ac yn enwedig theatr yr absẃrd. Bydd hi'n archwilio hyn yn bellach yn y Coleg Celf Frenhinol.





# Evgeniia Balashova

Dylunydd a gwneuthurwr gemwaith a ganwyd yn Rwsia yw Evgeniia Balashova sydd nawr wedi ei selio yng Nglasgow. Ar ôl derbyn addysg sgiliau traddodiadol yn Rwsia, symudodd Eve i'r DU i astudio Gemwaith a graddiodd o Ysgol Gelf Glasgow yn Mehefin 2016.

Daw tarddiad gwaith Evgeniia o wagleoedd clinigol ond amrywiol amgylchedd swyddfa a'r gwrthrychau sydd yn eu llenwi. Wrth archwilio'r nodweddion ailadroddol a ddarganfyddir mewn offer ysgrifennu, caledwedd cyfrifiadur, pensaernïaeth a chynlluniau llawr swyddfeydd, mae hi'n creu elfennau sydd yn ffurfio grid a'u trawsffurfio i siâp mwy anffurfiol ag organig i gyfleu anhrefn trefnus natur amgylchedd swyddfa gyffredin.

Crëir y darnau gan ddefnyddio amrywiaeth helaeth o dechnegau gwneud, er enghraifft printio 3d, CNC a chynhyrchu a llaw. Archwiliad parhaus o brosesau a deunyddiau yw gwaith Evgeniia ac ymgais i ddarganfod cydbwysedd rhwng dyn a pheiriant.





# Rebecca Durbin

Datblygodd chwant Rebecca am arbrofi a chreu'n broffesiynol yn ystod ei thair blynedd yn astudio Artist Dylunwr: Gwneuthurwr yn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd.

Fel dylunwr mae hi'n mwynhau gweithio mewn modd ymarferol i greu, allgyrchu a rheoli prosiect. Deillia'i hysbrydoliaeth o ddefnydd a phrydferthwch ac mae hi'n mwynhau defnyddio sgiliau crefft ddigidol a thraddodiadol i greu gwaith newydd cyffrous.

Defnyddia'i chasgliad gwaith presennol y crefftau traddodiadol o chwythu gwydr gyda llaw a throi pren ynghyd a CAD a CNC cyfrifiadur i greu gwaith sydd yn dod a'r crefftau at ei gilydd.






# Sally-Ann Parker

Teimla Sally-Ann hoffai ddiffinio'i hun a'i hunanoldeb drwy ei chelf. Ei syniadau ar le menyw yng nghymdeithas heddiw, ynghyd a sut mae menywod yn cael eu diffinio'n gorfforol yn ein hamgylcheddau. Ei nod yw dangos deialog rhwng artist a'r tecstil gwau, gan ddefnyddio'r ddisgyblaeth i bwysleisio'r pwythau fel iaith. Gan ddangos cysyniad o sut mae menywod wedi eu diffinio gan gymdeithas trwy amlinell.

Yn y corff diweddaraf yma o waith, mae Sally-Ann wedi darlunio ymgorfforiad ffisegol menyw drwy gig, asgwrn a chroen. Gan ddefnyddio'r peiriant gwau cartref i ddatblygu pwythau technegol, a'u manipiwleiddio gyda llaw, i ehangu tecstilau gwau ymhellach na defnydd, i weledied cysyniadol.






## Sophie Holbeche

Mae yna lonyddwch mewn symlrwydd, 2016

Crëwyd y gwaith yma fel ffordd i wahodd y gwyliwr i fod yn llonydd, i arafu a phrofi'r gwaith yn gyflawn. Fel daw symudiad cynyddol ein bywydau yn gliriach, mae yna frwydr i ddarganfod cydbwysedd a thawelwch yn ein bywydau personol. Dengys hyn yn y cynnydd mewn materion i ymwneud a phwysau, rydym ni yn y gymdeithas Orllewinol yn ei brofi'n ddyddiol. Mae gan waith Sophie nodweddion myfyriol a chwestiynol. Mae hi o'r farn bod gan ddelweddau syml ffordd o greu naws meddylgar a chwilfrydedd tuag at y ffordd rydym ni'n edrych ar a phrofi delwedd. Fel artist, mae ei diddordeb gweledol yn sut all delweddau amhwysol gyfathrebu nifer o wahanol gysyniadau. Nod ei gwaith yw datgan teimlad tawel, pwysigrwydd y munudau rydym ni'n eu rhannu a'r atyniadau darganfyddwn yn ein bywydau.





# Sophie Jones

Cysyllta Sophie gyda chelf gysyniadol fwyaf; y gymysgedd rhwng y traddodiadol a'r digidol. I'r darnau penodol yma daeth Sophie i'r farn fod yna bwysigrwydd yng nghyfleu neges ym mhortread gwaith, gan gymryd safle mwy aeddfed ar sut gall celf ddangos emosiwn neu ymwybyddiaeth i bwnc, dyma oedd y rheswm iddi ddewis Rhyfel. Mae'n bwnc mawr yng nghymdeithas heddiw ac roedd am gyfleu'r realiti yn ei gwaith. Gobeithia trwy'r gwaith gall pobl ddeall creisis presennol dioddefaint pobl. Wrth siarad am rywbeth sydd yn arswydus a'i droi yn rhywbeth da teimla fod hyn yn fwy dewr, rhywbeth gall ei drafod.













# Cara Davies

Darluniwr llyfrau plant yw Cara yn gweithio gyda gouache, dyfrlliw ac acrylig, gan orffen ei delweddau'n ddigidol. Mae ei darnau mwy neu lai'n hymatebion i naratif fel storiâu Brodyr Grimm a storiâu 'The Bloody Chamber and other Short Stories" Angela Carter. Er y tywyllwch tanlinellol tu ôl i'r storiâu yma mae hi'n hoffi cadw ei storiâu'n ysgafn, gan gymryd ffordd newydd i'r storiâu traddodiadol yma. Ei phrif nod wrth greu yw cymryd ffordd fodern i ddyluniad traddodiadol.







# Jake Rowles

Mae Jake yn gweld ei waith fel cysylltiad rhwng darlunio a ffilm. Archwilia themâu o obsesiwn, paranoia a dirgelwch yn ei waith, gan greu naratif nad yw bob amser yn glir - gall y darllenydd greu eu dehongliad nhw o'r stori. Mae'r darnau yma yn rhan o nofel raffig 'The Photo', stori ysgrifennydd mewn trafferth sydd yn credu ei fod wedi gweld llofruddiaeth posib mewn hen lun. Mae'r stori wedi ei ddylanwadu gan ffilmiau fel y 'Blow Up', 'The Conversation' a'r 'All the President's Men'. Trwy greu'r llyfr nod y prosiect yw troi'n gyfarwyddwr; 'cyfarwyddwr darlunio'.





# Julia Pantkowska


Cred Julia bod y broses ddatblygol yr un mor bwysig â'r gwaith celf ei hun. Cyffrous yw meddwl am daith anhysbys ei chreadigrwydd, sydd yn ei harwain o hyd i gyfeiriadau newydd. Yr ail ysbrydoliaeth yw'r cyfrwng. Yn draddodiadol mae'r cyfrwng yn israddol i'r cynnwys; heria'r ffiniau yma drwy dechnegau haenol a darluniau scalpel. Daw hwn o'i diddordeb yn y symudiad Dada, yn enwedig cynnwys delweddau darganfedig ac effemera. Ni ddylai fod ffiniau rhwng celf a'r bob dydd; gall colaj ddangos ffordd ddogfennol wrth gyflawni canlyniad arbrofol a chwareus. Gweithia Julia ar brosiect sydd yn ffocysu ar chwedlau crefyddol am farwolaeth, y byd tu hwnt a'r ddelfryd o 'Sancteiddrwydd' Dwyrain Ewrop. Cyfuna pynciau cyffredinol gyda deunyddiau bob dydd i archwilio'i chefndir ethnig a phrofiadau presennol.





# Katie O’Hanlon

Mae Katie yn creu darluniau gyda’r nod o’u rhoi ar wrthrychau, ac mae’n mwynhau anrhegion, darnau cartref a chardiau darluniol. Ei nod yw dod a gwen i wynebau pobl pan naill ai yn prynu neu yn derbyn un o’i gwrthrychau neu ddarluniau fel anrheg. Cymera ysbrydoliaeth o’r byd naturiol a dewisa arlunio’n arsylwad. Mae’r amgylchedd dynol hefyd yn ei hysbrydoli. Archwilia Katie gwead trwy ddefnydd gwaith llinell pensil a chyfuno hwn gyda dyfrlliw i ddal naws bywyd. Gweithia Katie’n draddodiadol a’i gyfuno gyda thechnegau digidol.








## Liyu Xue

Graddiodd Liyu o gwrs BA (Anrh) Darlunio o Brifysgol y Celfyddydau Creadigol. Ffocysau rhan fwyaf o'i gwaith ar adroddiad ac ymarfer awdurol, gan drafod pynciau cymdeithasol cyfoes, a'i ddosbarthu yn ei steil personol hi.

Prosiect i godi ymwybyddiaeth am iselder yw With My Black Sun. Defnyddia symbolaeth i adlewyrchu teimladau rhywun sydd yn dioddef o iselder ac sydd yn ei chael hi'n anodd gwaredu'i rheoliad. Mae Liyu yn ymwybodol bod ei darluniau yn apelio ond maent hefyd yn drist a diymadferth. Daw'r storiâu o brofiad personol, gwybodaeth llaw gyntaf a gwybodaeth ar-lein.






## Nathan Mullis

Fel artist, diddora Nathan yn y modd gall natur gwrthrychau dinod ddod at ei gilydd i greu deialog. Sut yn y funud reddfol o adeiladu ei Lino ar y pres printio, daw cyfansoddiad yn holl bwysig. Mae lleoliad a detholiad yn ddigymell, a chymer greddf drosodd.

Mae Nathan yn cael ei amsugno i natur y broses a sut mae'n creu sgwrs dwy ffordd rhwng artist a deunydd. Sut mae perthynas lliw yn cymorth ffurf a sut mae proses yn creu dealltwriaeth ac arwyddocâd.






# Mohamed Hassan

Nod gwaith Mohamed yw herio rhai o'r ystrydebau a barn pobl am eraill. Wrth gymryd lluniau pobl o wahanol oedrannau, rhyw, hil a thueddfryd rhywiol, mae'n archwilio cydraddoldeb a goddefgarwch wrth ddileu edrychiad personol fel yr unig argraff caiff y gwyliwr yw un o'r bod dynol, unigolyn nid ystrydeb.

Yn y corff yma o waith, gallwch weld ymhellach na'r edrychiad allanol, maent oll yn adlewyrchu llonyddwch mewnol.






# Thomas Rolfe

Gwaith diweddaraf Thomas yw CURA, sydd yn edrych i mewn i berthynas yr hil ddynol gyda'r byd naturiol. Gan ddelio gydag effeithiau dinistriol yr hil ddynol ar amgylcheddau naturiol y ddaear, ac archwilio'r canlyniadau drwy naratif ffuglen. Wrth adael rhyddid i'r dychymyg ac hunan-adlewyrchiad, mae'r naratif ei hun yn lled amhwysol. Nid pwrpas CURA yw bombardio'r gwyliwr gyda throseddau dynolrwydd, ond anelu creu hunanymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad natur, gobeithia gall hyn greu perthynas mwy positif a chynaliadwy. Fel ymarferwr mae'n edrych i wthio ffiniau gwaith print drwy ddarlunio cyfoes, gan gymryd gwerthoedd traddodiadol parod printio ac archwilio'i lawn botensial ym myd darlunio modern.





## Tom Abbiss Smith

Gwneuthurwr delweddau, darluniwr ac artist celf gain wedi ei selio yn Norwich yw Tom Abbiss Smith. Er bod ei greadigaethau yn cymryd modd aml-gyfrwng, mae ei steil unigryw o greu yn manipiwleiddio ansawdd y marc mewn cysylltiad â ffurf a chyfansoddiad. Trwy arbrofi helaeth mewn technegau traddodiadol a meddalwedd digidol, mae ei waith bob amser yn archwilio naratif cysyniadol unigryw.



I fagu datblygiant ac i gwthio ffiniau celf gweledol a chelf cymhwysol.

Un o safleoedd gorau Cymru am gelf gyfoes yw Oriel Mission. Mae'r Oriel wedi datblygu enw da am rhaglen deinamig a gwahanredol, i gyflwyno arbennigrwydd ar draws y byd celf gweledol, cymhwysol a chrefft, o Gymru ac ymhellach.

Mission Gallery
Gloucester Place
Abertawe • SA1 1TY

01792 652016
info@missiongallery.co.uk
www.missiongallery.co.uk

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru